**Codau lliw ar gyfer CiP canser craidd y gweithlu nyrsio a phroffesiynau perthynol i iechyd ym maes canser**

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| | Lefel ymarfer |
| | Cymhorthol |
| | Cynorthwyol |
| | Cyn-gofrestru (dan oruchwyliaeth) |

| Lefel ymarfer y fframwaith gyrfa | Disgrifydd lefel | Gofyniad dangosol i weithio ar y lefel hon | Enghreifftiau o rolau/swyddi |
|---|---|---|---|
| Cymhorthol | Mae'n ofynnol i ymarferwyr ar y lefel hon fodloni'r canlynol:<br>• Meddu ar wybodaeth ynghylch ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol o fewn eu maes gwaith;<br>• Cyflawni ystod eang o ddyletswyddau gan ysgwyddo peth cyfrifoldeb, gydag arweiniad a goruchwyliaeth wrth law pan fo angen;<br>• Darparu gofal iechyd tosturiol o ansawdd uchel gan ymlynu wrth safonau, polisïau neu brotocolau a gweithredu o fewn cyfyngiadau eu gallu bob amser;<br>• Defnyddio ac arfer eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wneud penderfyniadau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb;<br>• Ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gwaith ac am adolygu effeithiolrwydd camau gweithredu. | Gweler Tabl 1, yn ogystal â'r canlynol: Tystiolaeth o gyflawniad galluoedd ymarferol (CiP) canser craidd **ar lefel gymhorthol,** Tystiolaeth o gyflawniad deilliannau dysgu **Sylfeini Gofal Canser** neu gyfwerth. | Gweithiwr cymorth, gweithiwr cymorth canser, llywiwr canser, cydlynydd gofal canser, cynorthwyydd gofal, cynorthwyydd gofal iechyd, cynorthwyydd fferyllol, cynorthwyydd therapi, gweithiwr cymorth perthynol i iechyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyol | Mae'n ofynnol i ymarferwyr ar y lefel hon fodloni'r canlynol:<br>• Meddu ar wybodaeth ffeithiol a damcaniaethol mewn eang gyd-destunau o fewn eu maes gwaith;<br>• Gweithio'n annibynnol a chydag eraill o fewn ffiniau diffiniedig, dan arweiniad a chyfarwyddyd nyrsys cofrestredig neu AHP, i ddarparu gofal yn unol â chynlluniau/protocolau cytunedig;<br>• Meddu ar amrediad o wybodaeth a set sgiliau hyblyg, trosglwyddadwy i wasanaethu poblogaethau iechyd lleol. Yn hyn o beth, ystyried safbwyntiau a llwybrau unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i ddarparu gofal cyfannol wedi'i deilwra i unigolion, gan ategu'r gwaith o asesu, cynllunio, darparu ac arfarnu gofal;<br>• Gweithio'n unol â gweithdrefnau gweithredu safonol, protocolau neu systemau gwaith. Fodd bynnag disgwylir i'r ymarferydd fynegi barn, cynllunio gweithgareddau, cyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth ac arddangos hunanddatblygiad. | Cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel cydymaith nyrsio (Lloegr yn unig); Cofrestriad â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol fel technegydd fferyllol; neu radd sylfaen a chymhwyster proffesiynol priodol; ac hefyd: Tystiolaeth o gyflawniad galluoedd ymarferol (CiP) canser craidd ar **lefel gynorthwyol,** Tystiolaeth o gyflawniad deilliannau dysgu **Sylfeini Gofal Canser** neu gyfwerth. | Cydymaith nyrsio, technegydd fferyllol, ymarferydd cynorthwyol. |
| Cyn-gofrestru | | Rhaglen israddedig neu ôl-raddedig cyn-gofrestru yn arwain at gofrestriad â'r HCPC, GPhC neu NMC, ac hefyd: Tystiolaeth o gyflawniad deilliannau dysgu **Sylfeini Gofal Canser** neu gyfwerth, Tystiolaeth o gyflawniad galluoedd ymarferol (CiP) canser craidd ar **lefel cyn-gofrestru (dan oruchwyliaeth).** | Cydymaith nyrsio **cyn-gofrestru**, nyrsio (pob maes), technegydd fferyllol, fferyllydd neu fyfyriwr/dysgwr proffesiynau perthynol i iechyd. |